



Newyddion Pensiynau Gwent

Cylchlythyr ar gyfer Aelodau Gweithredol a Gohiriedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gyda Chronfa Pensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Croeso gan y Rheolwr Pensiynau

Croeso i rifyn haf 2020 o Newyddion Pensiynau Gwent, ein cylchlythyr i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a materion amserol eraill yn ymwneud â phensiynau.

Mae'r rhifyn yma'n cynnwys cyrraedd eich datganiad buddion blynyddol ar gyfer 2019/20, diweddariad ar wasanaethau i aelodau yn ystod y coronafeirws a diweddariad ar ddyfarniad McCloud. Mae'n cynnwys hefyd rhagor o ddiweddariadau yn yr adran newyddion byr.

Cofion Gorau

Jo Griffiths

Joanne Griffiths
Rheolwr Pensiynau



My Pension Online

Have you signed up to see your own pension account?

To sign up go to our website www.gwentpensionfund.co.uk and click on My Pension Online (at the top of the screen)



Eich Datganiad Pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer 2019/20

Mae eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2019/20 nawr ar gael ar eich cyfrif **My Pension Online**.

Os nad ydych chi wedi cofrestru eto i weld eich cyfrif My Pension Online –

ewch at ein gwefan

www.gwentpensionfund.co.uk a

chliciwch ar ddolen My Pension Online ar ben y sgrin. Mae yna 3 cham syml ar gyfer cofrestru gyda My Pension Online:

Cam 1 – Teipiwch eich **Rhif Yswiriant Gwladol** a'ch **Cod Post**.

Cam 2 – Dewiswch **Enw Defnyddiwr** a **Chyfrinair** ar gyfer eich cyfrif pensiwn.

Cam 3 – Atebwch **gwestiynau diogelwch**.

Byddwn yn danfon rhif adnabod personol trwy'r post i chi gwblhau'r cofrestriad.

Sut mae gweld eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2019/20 – pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif My Pension

Online, cliciwch ar **Documents and Statements** yn y ddewislen ar y chwith.

Mae eich datganiad ar gyfer 2019/20 yn **Benefit Statement Summary**. Cliciwch ar arwydd '+' i'w agor.

Gallwch lawrlwytho'n canllaw at ddeall eich datganiad o'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk o dan adran 'Forms and Publications' — 'guides'

Newidiadau i siarad â ni wyneb yn wyneb

AGORED

Gwasanaethau Aelodau

Yn anffodus, oherwydd y sefyllfa gyda Coronafeirws, mae'r Swyddfa'r Gronfa Bensiynau ar gau ac mae'r staff wedi bod yn gweithio o bell ers dechrau Ebrill.

Rydym yn cynnig cymaint o wasanaethau i aelodau â phosibl. Serch hynny, efallai bydd peth oedi wrth ymateb i'ch ymholiadau neu geisiadau ond bydd aelod o'r fîm yn ymateb cyn gynted â phosibl. **Hoffem ddiolch i'n haelodau i gyd am eu dealltwriaeth ac amynedd ar hyn o bryd.**


Newidiadau i'r Gwasanaeth

- Ni allwn gynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ar hyn o bryd.
- Os yw'n bosibl danfonwch ymholiadau a dogfennau trwy e-bost at **pensions@torfaen.gov.uk**, neu danfonwch ohebiaeth yn ddiogel trwy eich cyfrif My Pension Online.
- **Os oes rhaid i chi ddanfon dogfennau neu ohebiaeth trwy'r post, peidiwch â danfon tystysgrifau neu ddogfennau gwreiddiol oni bai ein bod yn gofyn i chi wneud hynny.**

Byddwn yn parhau i roi'r diweddraf i aelodau am unrhyw newidiadau ar ein gwefan **www.gwentpensionfund.co.uk**.

Mae Coronafirws (Covid-19) yn effeithio ar y farchnad stoc, ydy hyn yn golygu byddaf yn cael llai o bensiwn pan fyddaf yn ymddeol?

Mae'r CPLIL yn gynllun pensiwn buddion diffiniedig, felly nid yw buddion eich prif gynllun yn gysylltiedig â pherfformiad y farchnad stoc ac yn lle hynny fe'u cyfrifir yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy a nifer y blynyddoedd fel aelod.



Gallwch fod yn sicr na fydd unrhyw symudiadau yn y farchnad stoc yn effeithio ar fuddion eich prif gynllun.

Fodd bynnag, mae unrhyw gynllun Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) mewnol a allai fod gennych yn drefniant cyfraniadau diffiniedig; os felly, bydd gwerth y gronfa fuddsoddi

Cwestiynau Coronafeirws i Aelodau'

Cyhoeddodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol atebion i rai o gwestiynau cyffredin aelodau am eu pensiynau yn ystod Coronafeirws.

Cliciwch ar ddiweddariad gwasanaeth a gwyodaeth **www.gwentpensionfund.co.uk** ac ar Gwestiynau Coronafeirws Aelodau.

Newyddion yn Gryno

Sut fydd Ddyfarniad McCloud yn effeithio ar CPLIL?

Pan newidiodd yr CPLIL o gyflog terfynol i gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa yn 2014, cyflwynwyd amddiffyniadau i aelodau hŷn y cynllun (y cyfeirir atynt fel **tanategiad**). Darparwyd amddiffyniadau tebyg mewn cynlluniau pensiwn eraill yn y sector cyhoeddus. Dyfarnodd y Llys Apêl fod camwahaniaethu ar aelodau iau cynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân oherwydd nad yw'r amddiffyniadau'n berthnasol iddynt. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i holl brif gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys yr CPLIL, i gael gwared ar y camwahaniaethu ar sail oedran. Yn aml, gelwir y dyfarniad hwn yn **ddyfarniad McCloud**.

Mae'r Llywodraeth yn dal i ystyried yn union pa newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i gael gwared ar y camwahaniaethu o'r CPLIL. Mae hyn yn golygu **NAD** oedd yn bosibl adlewyrchu effaith y dyfarniad yn eich datganiad buddion blynyddol eleni. Os ydych chi'n gymwys i gael eich amddiffyn, bydd yn berthnasol yn awtomatig - **nid oes angen i chi wneud cais**.

I gael mwy o wybodaeth am ddyfarniad McCloud, gweler y cwestiynau cyffredin ar wefan genedlaethol CPLIL:


www.lgpsmember.org/news/latest.php

Symud Cartref?

Os ydych chi'n newid cyfeiriad, cofiwch adael i ni wybod — nid y unig er mwyn cadw'r cofnod yn gyfredol ond hefyd i sicrhau nad oes gwybodaeth yn mynd at eich hen gyfeiriad, gan achosi perygl o ddwyn



Gofyn am amcangyfrif oddi wrthym



Gallwch ofyn am amcangyfrif o'ch buddion pensiwn CPLIL os ydych chi'n ystyried ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddeall yr

incwm y byddwch yn ei dderbyn gan y CPLIL pan fyddwch yn ymddeol.

Gallwch ofyn am amcangyfrif trwy lenwi ffurflen gais am amcangyfrif. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan o'r adran Forms and Publications.

Os ydych chi o dan 55 oed neu'n fwy na 2 flynedd i ffwrdd o ddiwrnod posibl eich ymddeoliad, byddwn yn gofyn i chi ddefnyddio'r amcangyfrifydd ar-lein ar My Pension Online i gael amcangyfrif o'r ffigyrau ar gyfer eich ymddeoliad.

Lwfans Oes a Lwfansau Blynyddol CThEM ar gyfer 2020/21

Lwfans Oes—£1,073,100

Lwfans Blynyddol—£40,000 ond gall gael ei leihau i gyn lleied â £10,000 gan ddibynnu ar enillion.

Cyfraddau Cyfraniadau 2020/21 Aelodau gweithredol yn unig

Menter Twyll Genedlaethol

Cyflog Blynnyddol	Cyfraniad	
	Prif Adran	Adran 50/50
Hyd at £14,600	5.5%	2.75%
Dros £14,601 a hyd at £22,800	5.8%	2.9%
Dros £22,801 a hyd at £37,100	6.5%	3.25%
Dros £37,101 a hyd at £46,900	6.8%	3.4%
Dros £46,901 a hyd at £65,600	8.5%	4.25%
Dros £65,601 a hyd at £93,000	9.9%	4.95%
Dros £93,001 a hyd at £109,500	10.5%	5.25%
Dros £109,501 a hyd at £164,200	11.4%	5.7%
Dros £164,201	12.5%	6.25%

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) ddyletswydd i ddiogelu'r arian yr ydym yn ei weinyddu. Mae hyn y cynnwys cymryd rhan ym Menter Twyll Cenedlaethol y Llywodraeth, ac efallai byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at ddibenion atal a datgelu twyll.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i amddiffyn y pwrs cyhoeddus trwy gymharu data ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, i atal a datgelu twyll.

Mae'r ymgyrch yn digwydd pob dwy flynedd. Ers i'r fenter gychwyn yn 1996 mae hi wedi helpu i ddatgelu £1.3 biliwn mewn twyll, camgymeriadau a gordaliadau ar draws y DU

Mae menter 2020/21 ar droed ar hyn o bryd ac mae gofyn i ni roi gwybodaeth am bensiynwyr i Swyddfa Archwilio Cymru at ddibenion cymharu data.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan y '**Cod Arfer Cymharu Data**' er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith, yn arbennig Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gallwch ddarllen mwy am gymharu data a lawrlwytho'r Cod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: <http://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/menter-twyll-genedlaethol>

Pensiynau'n Syml

Mae cyfres o fideos byr am bynciau yn y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol i helpu chi i ddeall eich pensiwn yn well.

Mae'r fideos ar gael yn <https://www.gwentpensionfund.co.uk/greater-gwent-torfaen-pension-fund/client-area/news/pensions-made-simple-short-videos/>

Codi uchafswm CPY

Mae'r mwyafswm o bensiwn blynnyddol ychwanegol y gallwch ei brynu trwy CPYau wedi codi ar gyfer 2020/21 i £7,194.